

Datganiad i'r Wasg – 1 Mehefin 2007

Partneriaeth newydd Gymreig yn helpu pobl ifanc i fod yn ddoeth ac yn ddiogel ar-lein

Cafodd partneriaeth newydd sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o fusnesau a diwylliannau sydd yng Nghymru ei lansio heddiw er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc, eu rhieni a'u gwarchodwyr o fod yn ddiogel wrth ddefnyddio'r we.

Mae gan y bartneriaeth sy'n cynnwys WISE KIDS, Urdd Gobaith Cymru, Childline Cymru a BT Cymru Wales llawer o amcanion gwahanol;

- Asesu tueddiadau presennol pobl ifanc wrth ddefnyddio'r we a ffonau symudol, a'r sialens sydd ar hyn o bryd wrth ddefnyddio'r we.
- Datblygu rhaglenni targed arloesol er mwyn sicrhau bod pobl ifanc a rhieni yn deall y we a'r dechnoleg sy'n ymwneud â ffonau symudol, a'r risg sydd ynghlwm â defnyddio'r rhain ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio safleoedd rhyngweithiol ar lein, gwasanaethau anfon negeseuon ar lein, cysylltu â deunydd anaddas a meithrin perthynas anaddas.

Mae'r bartneriaeth yn awyddus i bwysleisio fod nifer o nodweddion da i'r rhyngwrwd hefyd. Maent yn gobeithio trwy ddatblygu y rhaglenni a'r ffynonellau hyn, y byddant yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth pobl o sut i ddefnyddio'r rhyngwrwd yn ddiogel, ac y byddant yn gallu ymdopi â'u diogelwch personol ar lein.

Meddai aelod o'r bartneriaeth, Sangeet Bhullar, Prif Weithredwr WISE KIDS, "Mae gan y rhyngwrwd a ffonau symudol gymaint i'w gynnig i blant a phobl ifanc heddiw. Maent yn gallu dysgu a chymdeithasu ar lein. Fodd bynnag, tra bod llawer o bobl ifanc yn gyfforddus gyda defnyddio gwasanaethau anfon negeseuon nid ydynt bob amser yn ymwybodol fod eu proffiliau a'r safleoedd y maent yn eu creu ar gael i bawb yn y byd heblaw eu bod yn cael eu diogelu yn benodol. Nid ydynt chwaith yn ymwybodol o sut mae'r rhyngwrwd yn gweithio, sut mae modd i bobl gael gafael ar eu manylion personol, sut mae gwybod beth yw cynnwys gwefan, na sut mae meithrin perthynas anaddas yn digwydd. Mae'n bwysig ein bod ni yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn deall a bod yr adnoddau ganddynt i sicrhau eu bod yn cael y mwyaf allan o'r dechnoleg ac i'w paratoi ar gyfer bywyd, ac nid i'w hatal rhag defnyddio'r gwasanaethau yma yn gyfangwbl. Bydd y bartneriaeth hon yn werthfawr er mwyn ateb gofynion llawer o'n pobl ifanc.'

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, sydd hefyd yn rhan o'r bartneriaeth, "Mae'r Urdd yn cymryd diogelwch plant a phobl ifanc o ddifrif, ac rydym fel mudiad yn deall fod byd plant a phobl ifanc yn newid o hyd. Yr ydym yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddatblygu arfer da ac arweiniad er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Yr ydym hefyd yn sylweddoli fod yn rhaid iddyn nhw gael rhyddid i ddatblygu eu diddordebau a'u cymeriadau eu hunain. Y mwyaf y gallwn ei wneud er mwyn cynyddu dealltwriaeth o'r peryglon, gorau'i gyd.'

Ychwanegodd Ann Beynon, Cyfarwyddwr BT yng Nghymru, "Mae'r rhyngwrwd wedi dod yn rhan hanfodol o'n bywydau ni ac mae plant a phobl ifanc wedi dysgu'n gyflym sut i ddefnyddio'r rhyngwrwd ar gyfer gwneud pob math o bethau, o ddysgu i gymdeithasu. Ond mae'r gallu yna yn medru bod yn beryglus hefyd. Mae BT yn barod yn hybu syrffio diogel drwy'r Gôd y Groes Werdd, ond mae'r bartneriaeth hon yn mynd a'r broses un cam ymhellach trwy edrych ar dueddiadau fel bwlio ar lein gan ddod â mudiadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc bob dydd at ei gilydd i ddelio â'r materion hyn. Yr ydym eisiau darparu canllawiau 'syrffio diogel' lle gall rhieni a phlant fel ei gilydd fynd ato tra eu bod yn syrffio'r we er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn ddiogel. Credwn ni y gall y bartneriaeth hon gyflawni hynny.'

XxxxxxxxxxxxxX

Cymdeithas yw WISE KIDS a sefydlwyd yn Hydref 2002 nad yw'n gwneud unrhyw elw. Ei amcanion yw i gydweithio gyda phobl ifanc, gweithwyr ieuencid, rhieni, llyfrgellwyr, athrawon, llywodraethwyr, gweithwyr cymdeithasol, rhieni maeth, grwpiau cymunedol a busnesau i hybu technoleg ffonau symudol a rhyngwyd newydd, llythrennedd rhyngwyd, effeithiolrwydd a diogelwch.

Gallwn gyflawni hyn drwy:-

- ❖ Godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau a llenyddiaeth
- ❖ Rhaglenni ymgynghori ac hyfforddi
- ❖ Mae gan wefan WISE KIDS yr adnoddau i addysgu pobl ifanc a'r gymuned yn gyffredinol am ddiogelwch ar lein a defnyddio'r rhyngwyd yn bositif.

Urdd Gobaith Cymru yw mudiad ieuencid mwyaf Cymru sydd a dros 52,000 o aelodau rhwng 8 a 25. Nod yr Urdd yw:-

I roi y cyfle i blant a phobl ifanc Cymru i fyw eu bywydau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg gan ddatblygu hyder a pharch at ei gilydd ac at bobloedd y byd.

Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys:-

- ❖ Teithiau ac ymweliadau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a'r gwersylloedd.

Mae'r Urdd wedi rhoi cyfleon cyffrous i blant a phobl ifanc ers dros wyth deg mlynedd.

Cyswllt:

Dr Sangeet Bhullar
WISE KIDS
40 Wood Crescent,
Casnewydd, NP10 0AL
Ffôn +44 (0)1633 673339;
Mobeil +44 (0)7900 911940
sangeet@wisekids.org.uk;
<http://www.wisekids.org.uk>

Sian Eleri
Urdd Gobaith Cymru,
Aberystwyth,
Ceredigion SY23 1EY
Ffôn +44 (0) 01970 613118;
Mobeil +44 7976330360
sianeleri@urdd.org
<http://www.urdd.org>